

Stopio a Chwilio – Gwybod Eich Hawliau

Gall swyddog eich stopio a'ch chwilio chi neu gerbyd yr ydych ynddo os oes ganddo seiliau rhesymol dros amau eich bod yn cario:

- Cyffuriau, arfau neu eiddo wedi'i ddwyn; neu
- Eitemau y gellid eu defnyddio i gyflawni trosedd.

Gall heddwision eich stopio a'ch chwilio o fewn ardal benodol heb unrhyw seiliau rhesymol os credir:

- Y gallai trais difrifol ddigwydd; neu
- Os yw arfau ymosodol yn cael eu cario neu wedi'u defnyddio.

Gall heddwision eich stopio a'ch chwilio am dystiolaeth neu eitemau mewn cysylltiad â therfysgaeth. Bydd angen iddynt gael seiliau rhesymol dros gredu y byddant yn canfod yr hyn y maent yn chwilio amdano, oni bai bod pwerau penodol wedi'u hawdurdodi dan Adran 47A Deddf Terfysgaeth 2000.

Nid oes raid i heddwision fod mewn iwniform bob amser i'ch stopio a'ch chwilio. Gall swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu hefyd eich stopio a'ch chwilio mewn rhai sefyllfaoedd, ond mae eu pwerau yn gyfyngedig.

Rhaid i unrhyw swyddog sydd yn eich stopio a'ch chwilio egluro bob amser:

- Pam rydych yn cael eich stopio a'ch chwilio;
- Beth mae'r swyddog yn chwilio amdano;
- Dan ba ddeddf yr ydych yn cael eich chwilio; ac
- Eich hawl i gael derbynneb.

Dylai swyddog sy'n eich chwilio bob amser roi ei enw neu rif a'i orsaf.

Os ydych yn cael eich chwilio ond ddim yn cael eich arestio, mae gennych yr hawl i gael derbynneb a rhaid i'r swyddog gofnodi'r manylion canlynol:

- Sut yr ydych yn disgrifio eich cefndir ethnig;
- Pryd a ble y cawsoch eich stopio a'ch chwilio
- Pam y cawsoch eich stopio a'ch chwilio;
- Enw ac/neu rif y swyddog a wnaeth eich chwilio; a
- Beth roeddent yn chwilio amdano.

Byddwch yn cael cynnig naill ai gopi o'r cofnod os cafodd ei ysgrifennu ar bapur, neu dderbynneb os gwnaed y cofnod yn electronig neu trwy gyfrwng radio'r swyddog. Gallwch ddefnyddio'r dderbynneb i ofyn am gopi papur neu electronig o'r cofnod llawn o'r orsaf heddlu lle roedd y swyddog yn gweithio o fewn tri mis i chi gael eich stopio, neu i wneud cwyn.

Os ydych yn cael eich chwilio ac yna eich arestio, bydd manylion y chwilio yn cael eu hychwanegu at eich cofnod dalfa. Bydd gennych hawl o hyd i gael copi o'r cofnod chwilio. Mae'n bosibl y gofynnir i chi dynnu eich côd, eich siaced a'ch menig yn gyhoeddus (ac unrhyw benwisg ac esgidiau os ydych yn cael eich chwilio dan Adran 47A Deddf Terfysgaeth 2000).

Os gofynnir i chi dynnu mwy na chôt allanol, siaced neu unrhyw beth sy'n cael ei wisgo am resymau crefyddol, eir â chi i rywle sydd allan o olwg y cyhoedd.

Byddwch fel arfer yn cael eich chwilio gan swyddog o'r un rhyw â chi, er y gall swyddog o'r rhyw arall ofyn i chi dynnu penwisg er mwyn cael eich chwilio dan Adran 47A Deddf Terfysgaeth 2000.

Dylech bob amser gael eich trin yn deg a chyda pharch. Os teimlwch nad yw hyn wedi digwydd, gallwch gwyno.

Gallwch hefyd gwyno os ydych yn teimlo eich bod wedi cael eich trin yn llai ffafriol oherwydd eich oed, anabled, ailbennu rhywedd, hil, crefydd/cred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Bydd o gymorth os cadwch y dderbynneb a roddodd y swyddog i chi.

Cofiwch:

- Rhaid i chi gael eich trin yn deg
- Rhaid i chi gael gwybod pam yr ydych yn cael eich chwilio
- Nid oes rhaid i chi roi unrhyw wybodaeth bersonol oni bai eich bod wedi cael eich arestio
- Nid cael eich arestio yw stopio a chwilio – ni fyddwch yn cael record droseddol
- Rhaid i chi gael cynnig, a gallwch gael, copi o'r cofnod stopio a chwilio neu dderbynneb
- Mae gennych yr hawl i gwyno

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau ar gyfer Gwent

Mae'r Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn gyfrifol am blismona yn ein hardal. Mae'n monitro'r defnydd o bwerau stopio a chwilio gan Heddlu Gwent ac yn dal yr Heddlu i gyfrif.

Os cewch eich stopio a'ch chwilio yng Ngwent gallwch ddweud wrthym am eich profiad. Ewch i'r tudalennau Chwilio Stopio ac ar ein gwefan:

www.gwent.pcc.police.uk


i helpu i wella'r ffordd mae stopio a chwilio yn cael ei wneud yn ein hardal.

Os ydych yn teimlo eich bod wedi cael eich trin yn annheg yn ystod chwiliad gallwch wneud cwyn drwy e-bostio:

professionalstandards@gwent.pnn.police.uk

neu gysylltu swyddfa'r Comisiynydd ar:

commissioner@gwent.pnn.police.uk



STOPIO A CHWILIO



GWYBOD EICH HAWLIAU

Mae stopio a chwilio yn arf heddlua gwerthfawr sy'n helpu i gadw ein cymunedau yn ddiogel. Mae dyletswydd ar bawb i helpu heddwision i atal troseddau a dal troseddwr; mae cydweithrediad y cyhoedd yn hanfodol i sicrhau bod stopio a chwilio yn cael ei ddefnyddio yn iawn.

Mae'r heddlu'n gwybod bod cael eich chwilio yn anghyfleus a dylent wneud y profiad yn un mor fyr â phosibl. Ond er budd diogelwch y cyhoedd, rhaid i'r chwilio fod yn drwyadl. Gallwch helpu i gyflymu'r broses drwy geisio aros yn dawel eich meddwl a chydweithredu â'r swyddog.

